

**Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO  
a gynhaliwyd ar ffurf Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac  
o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 19 Ionawr 2023**

YN BRESENNOL: Mr Alan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Endaf Edwards, Wyn Evans, Gareth Lloyd, Maldwyn Lewis a Mark Strong ynghyd â Mr Andrew Blackmore a Mrs Caroline Whitby

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Gareth Davies a Matthew Vaux (Aelodau Cabinet)

Swyddogion yn bresennol: Mr Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; Mr Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol – Cyllid Craidd; Mr Mark Bridges, Rheolwr Gwasanaeth – Prosiectau a Chyfrifon; Mrs Karen Jenkins, Rheolwr Gwasanaeth – Cyllid Craidd; Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro; Mrs Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol; Mr Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu; Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(9:30am -10:45am)

**1 Ymddiheuriadau**

Dim.

**2 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Datgelodd y Cynghorydd Endaf Edwards fuddiant personol yng nghyswllt eitem 6 sef y Datganiad Cyfrifon. Roedd y buddiant yn ymwneud â Phensiynau Llywodraeth Leol.

**4 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22 – y diweddara**

Ystyriwyd y diweddariad am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22. Dywedwyd bod y Cyngor wedi cymeradwyo fersiwn ddrafft o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 ar 08 Gorffennaf 2022.

Cafodd yr Aelodau wybod bod y newidiadau canlynol wedi'u gwneud i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22 yn dilyn argymhellion gan Archwilio Cymru:

- Tudalen 7 – roedd y dyddiadau y byddai'r Adain Archwilio Mewnol yn adolygu'r Ddogfen Fframwaith Llywodraethu wedi'u cywiro.
- Tudalen 7 – roedd casgliad yr adolygiad hunanasesu o God Rheoli Ariannol CIPFA wedi'i ychwanegu.
- Tudalennau 13, 29 a 35 – roedd dyddiad cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol wedi'i ddiweddarau.
- Tudalen 22 – roedd blwyddyn y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol, sef 2021/2022, wedi'i chywiro.
- Tudalen 29 – roedd y dyddiadau ychwanegol ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Archwilio Mewnol wedi'u darparu.

- Tudalennau 30, 35 a 36 – roedd dyddiad yr adolygiad diweddaraf gan gymheiriaid a wnaed gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Mai 2022 wedi'i ddiweddarau.
- Tudalen 36 – roedd y dyddiad ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol wedi'i ddiweddarau.
- Tudalen 37 – roedd y sylwadau a'r dyddiadau ar gyfer Adroddiad Cynnydd ac Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021/22 wedi'u diweddarau.
- Tudalen 38 – roedd mân wall teipio wedi'i gywiro.

Yn dilyn cwestiwn o'r llawr, CYTUNWYD i argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r fersiwn ddiwygiedig o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022.

CYTUNWYD hefyd y dylai'r adolygiad nesaf o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ystyried cynnwys llinell ychwanegol yng Nghasgliad y ddogfen, a fyddai'n cadarnhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi bod yn offeryn effeithiol i fynd i'r afael â materion llywodraethu yn ystod y flwyddyn flaenorol, a bod y Cyngor yn y sefyllfa y dylai fod. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i Aelodau'r Pwyllgor.

## 5 **Adroddiad ISA 260**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Jason Blewitt o Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Cafodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael a'i swyddogion eu llongyfarch am eu gwaith wrth gwblhau'r archwiliad.

Tynnodd Mr Blewitt sylw'r Aelodau at y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

Bu i'r swyddogion ateb cwestiynau ynghylch paragraffau 20-22 yn yr adroddiad gan esbonio'r cynllun a oedd wedi'i lunio i gyflawni'r rhaglen waith eleni.

**PENDERFYNWYD:-**

- (i) nodi cynnwys yr adroddiad;
- (ii) llongyfarch y gwasanaeth am yr adroddiad rhagorol; a
- (iii) threfnu cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ymhen y mis i gael diweddariad am y materion a oedd wedi'u codi yn Adroddiad ISA 260 ynghylch y Gwasanaeth Ystadau ynghyd â chynllun gweithredu'r gwasanaeth a'r hyn y byddai'r gwasanaeth wedi'i wneud erbyn hynny o ran y gwaith prisio a oedd i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2023. Roedd yr Aelodau yn dymuno derbyn sicrwydd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau ac na fyddai'n cael ei godi eto yn Adroddiad ISA 260 yn 2022/23.

## 6 **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynglŷn â Datganiadau Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Harbwr Ceredigion 2021/22**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael Ddatganiadau Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer 2021/22 gan dynnu sylw at faterion gweithdrefnol a chyflwyniadol.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael a'r Rheolwr Corfforaethol - Cyllid Craidd a'u staff am eu gwaith caled wrth baratoi'r Datganiad.

PENDERFYNWYD argymhell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion a Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer 2021/22 fel y'u cyflwynwyd gan nodi y byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno argymhelliad y Pwyllgor gerbron y Cyngor ddydd lau nesaf.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:\_\_\_\_\_**

**Dyddiad:\_\_\_\_\_**